**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AM 7:00 Y.H. NOS FAWRTH, 17 O ORFFENNAF 2018 YN YSGOL GYNRADD CWM Y GLO**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Alan Pritchard, Clifford Williams, Cemlyn Jones, Phil Roberts, Goronwy Hughes, Meirwen Lloyd, Haf Williams

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Hefin Jones, Martin Jones, Rhys Parry, Llywelyn Williams, Richard Robinson

**Aelod dros Gyngor Gwynedd:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cwm y Glo)

**Clerc:** Meirion Jones

**211. Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am droi fyny. Esboniwyd mai'r Cynghorydd Avril Jones (Is-gadeirydd y Cyngor) fydd yn cadeirio'r cyfarfod oherwydd fod y Cadeirydd wedi ymddiheuro y bydd yn hwyr.

**212. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**213. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**214. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mehefin 2018**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**215. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd fod cais cynllunio ar gyfer 9 tŷ ar dir dros y ffordd i'r Ysgol Gynradd wedi ei dynnu yn ôl.

Adroddwyd fod y diwrnod casglu ysbwriel wedi cymryd lle ac fod y diwrnod wedi bod yn llwyddiannus. Nodwyd bydd dyddiau eraill yn cael eu cynnal yn y dyfodol fydd yn cynnwys C

**216. I dderbyn adborth / sylwadau ar ddiwrnod casglu ysbwriel a gynhaliwyd 7fed o Orffennaf 2018.**

a) Adroddwyd fod nifer o aelodau’r Cyngor wedi troi allan i’r diwrnod ynghyd a rhai o’r pentrefwyr gan gynnwys nifer o blant. Rhai o Ysgol Brynrefail ac o’r Ysgol Gynradd. Nodwyd fod 11 bag o ysbwriel wedi ei godi ynghyd ag ambarél a car rasio!

b) Adroddwyd am ddigwyddiad gyda un aelod o’r Cyngor ac fe drafodwyd unrhyw gamau y dylid eu cymryd.

**Penderfynwyd:**

a) Diolch i bawb am droi fyny i’r diwrnod ac i Gareth Jones am drefnu i ddidoli’r ysbwriel ac i’w gludo i safle ail-gylchu Cibyn.
b) Ysgrifennu at y person yn datgan siom am ei ymddygiad.

**217. I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent ac i ystyried y dyfynbrisiau a dderbyniwyd ar gyfer gwaith llwybrau’r fynwent**

a) Adroddwyd fod pwyllgor y fynwent wedi penderfynu ceisio dyfynbrisiau ar gyfer ail osod wynebau ar lwybrau yn y fynwent. Adroddwyd ymhellach fod tri pris wedi ei dderbyn.
b) Adroddwyd fod cais wedi ei wneud i’r Cyngor gan deulu i osod fainc yn y fynwent er cof.
c) Adroddwyd ymhellach fod angen torri chwyn ar y llwybrau ac y bydd angen pris am y gwaith.

**Penderfynwyd:**

a) Gohirio penderfyniad ar dderbyn y pris ar hyn o bryd hyd nes bydd y Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod;
b) Aelodau o’r Cyngor Cymuned i gyfarfod a’r teulu i benderfynu ar leoliad y fainc;
c) Ceisio pris am wneud y gwaith.

**218. I dderbyn sylwadau ar faterion Llwybrau cyhoeddus**

a) Adroddwyd fod y contractwyr wedi bod yn tocio’r llwybrau cyhoeddus.
b) Nodwyd fod diffyg biniau baw cŵn ar lwybrau cyhoeddus yn enwedig ar y ffordd o Llanrug i Cwm y Glo ar hyd y llwybr beicio / cerdded.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y wybodaeth
b) Y Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd i holi am finiau ychwanegol gyda copi o’r cais i’r Cynghorydd Berwyn Parry Jones

**219. I dderbyn sylwadau ar faterion meysydd chwarae**

Adroddwyd fod twll yn ffens ar gae Nant y Glyn ac ei fod angen ei drwsio.

**Penderfynwyd:**

Gofyn wrth ein contractwr fynd i gael golwg ar y ffens

**220. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Nodwyd nad oedd y cynrychiolydd yn bresennol yn y cyfarfod heno

**221. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard ei fod wedi bod mewn cyfarfod o Lywodraethwyr yr Ysgol Gynradd gyda'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones ac fod y penderfyniad wedi ei wneud i gau'r ysgol. Y bwriad yw fod yr ysgol yn cae yn mis Medi 2019. Adroddwyd mai dim ond 9 disgybl fydd yn yr ysgol o fis Medi 2018.

Diolchwyd am y wybodaeth.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**222. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Cynllunio**

Erbyn hyn mae dau gwmni lleol wedi ei penodi i edrych dros y Canllaw sydd i wneud a'r Iaith Gymraeg. Gobeithir y byddant yn adrodd yn ôl y mis Medi, ac wedyn fydd y canllaw yn mynd allan i ymgynghoriad gyhoeddus, mi fydd yn dod i'r Cynghorau Cymuned hefyd am sylwadau

**Arbedion**

Dim datblygiadau newydd yn cynlluniau arbedion.

**Cwmni Hamdden**

Mae'r cwmni yn awr wedi ei gofrestru hefo Companies House. Cyfarfodydd TUPE yn mynd yn eu blaen. Mae'r staff a'r undebau yn gefnogol i'r fenter newydd. Y gobaith yw y bydd y cwmni yn weithredol yn yr Hydref.

**Cynllun Tŵf Gogledd Cymru**

Adroddiad wedi mynd o flaen y Cyngor wythnos diwẹthaf i sefydlu trefn llywodraethu y Cynllun yn ogystal a cadarnhau y gytundeb rhwng y 6 awdurdod yn y Gogledd. Pethau i weld yn symud ymlaen.

**Bysiau**

Dal i gael trafferth hefo Arriva, swyddogion yn dal i fonitro, hefyd mae Arriva wedi cytuno i gynnal digwyddiad ar y maes yng Nghaernarfon, fel “drop in”, lle fydd cyfle i’r cyhoedd alw i mewn a dweud eu dweud.

**Yn lleol**

**Bryn Têg**

Wedi derbyn nifer o gwynion am digwyddiadau yn ymwneud a Bryn Têg, carafanau mawr yn cael eu cludo i fyny ac i lawr y ffordd gul, yn achosi oedi mawr a peth difrod i waliau ac yn y blaen. Hefyd cwynion o sŵn, adloniant yn hwyr yn y nos, ac hefyd tân gwyllt. Ceisio cyfarfod hefo Rheolwr y safle i drafod ymhellach.

**223. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

<u>Damwain ger Pen Greuor, Ffordd Caernarfon</u>

Yn dilyn y ddamwain ddiweddar gofynnais i’r Rheolwr Uned Traffig Cyngor Gwynedd ystyried gostwng y cyfyngiad cyflymder i lawr o 40 m.y.a i 30 m.y.a. rhwng Pen Greuor a Sgwâr Llanrug. Atgoffais ef fod y Cyngor Cymuned wedi rhoi cais am hyn rhai misoedd yn ôl. Dyma’r ateb gefais ganddo:

“Rwy’n ymwybodol o’r ddamwain diweddar ac yn gobeithio fod neb wedi ei anafu’n ofnadwy. Yn anffodus nid oes gennym wybodaeth pellach am y ddamwain ac felly ni allwn wybod os oedd y ddamwain o ganlyniad goryrru neu reswm arall. Ni allwn gyfiawnhau newid y cyfyngiad cyflymder ar sail un damwain, yn enwedig mewn lleoliad lle nad oes cofnod hanesyddol o unrhyw ddamweiniau o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Hoffwn eich hysbysu, yn dilyn asesiad cyflymder cerbydau diweddar o fewn y parth 40 m.y.a., canlyniad o 41 m.y.a. (85%tile) a 36 m.y.a. (mean) cafwyd ei gofnodi. Mae hyn yn ein harwain at y canlyniad fod y cyfyngiad cyflymder presennol yn briodol i’r darn ffordd yma gan fod rhan helaeth o yrwyr yn teithio o fewn y cyfyngiad cyflymder hyn.”

<u>Ysgol Gynradd Llanrug</u>

Yn dilyn ymddeoliad Mrs Howells, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol, ddiwedd y tymor cyfredol, cynhaliwyd cyfwelaiadau ar 11 Gorffennaf i benodi Dirprwy newydd. Yr ymgeisydd llwyddiannus oedd Miss Gwenan Lockley. Ar hyn o bryd mae Miss Lockley yn athrawes blwyddyn 5 a 6 ac yn aelod o'r tim rheoli yn Ysgol Deganwy. Diolchwn i Mrs Howells am ei gwasanaeth hir i’r Ysgol, a dymunwn ymddeoliad hir, iach ac hapus iawn iddi.

<u>Bin ysbwriel/baw ci dros ffordd i’r hen Garej Hafod, Ffordd Llanberis</u>

Diflanodd y bin hwn dros ddau fis yn ôl a gofynnais i'r swyddog perthnasol edrych i mewn i hyn gyda'r gobaith y buasai un newydd yn cael ei osod yn ei le. Mae hyn rwan wedi ei wneud a mae bin newydd wedi ei osod.

**224. I dderbyn diweddariad ar elusen 'Llanrug Poor House' (Cyng Goronwy Hughes)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes ei fod wedi bod mewn cysylltiad a'r Comisiwn Elusennol i ddod a'r elusen i ben. Nodwyd fod yr arian sydd yn enw'r elusen i'w ddosbarthu ar gyfer dibenion elusennol sydd yn cyd fynd ac amcanion.

**Penderfynwyd:**

**a)** Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiad.
**b)** Gofynnir i'r aelodau ystyried unrhyw ddibenion ble gellir targedu'r arian

**225. I ystyried yr opsiynau i bwrcasu diffibriliwr.**

Adroddwyd fod penderfyniad i'w wneud ar leoliadau i'r diffibriliwr ac fod angen penderfyniad ar prun ai ydi'r Cyngor yn ei ariannu, fod y Cyngor yn agor cronfa arbennig ac gyfer pwrcasu neu gyd-lynu apêl cymunedol. Adroddwyd ymhellach fod y blwch ffon yn Cwm y Glo yn wag ac fod blwch ffon yn Llanrug yn un o'r lleoliadau i'w ystyried.

**Penderfynwyd:**

a) Cysylltu a BT i holi am yr opsiwn osod diffibriliwr oddi fewn i'r ciosg yng Nghwm y Glo ac yn Llanrug;
b) Cysylltu a meddygfa Llanberis i geisio eu barn ar leoliadau priodol ayyb
c) Rhoddwyd enw Geraint Strello fel cysylltiad yn BT.

**226. Ceisiadau Cynllunio**

**DIM**

Daeth y cyfarfod i ben am 20:05
Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 21 Awst 2018